

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Llanrwst/Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	17
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	Error! Bookmark not defined.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Llanrwst yn 42 Stryd yr Orsaf, Llanrwst, Conwy LL26 0BT, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 23 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod MyDentist, Llanrwst yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod staff yn diweddarau eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae MyDentist, Llanrwst yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Conwy. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un hylenydd, un nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynydd ac un rheolwr practis dynodedig.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod MyDentist, Llanrwst yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron. Derbyniwyd cymysgedd dda o holiaduron gan gleifion cymharol newydd yn y practis (y rheini a oedd wedi bod yn gleifion yno am lai na dwy flynedd) a chleifion tymor hir yn y practis.

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd un claf:

“Gwasanaeth o'r radd flaenaf yma bob tro; staff cwrtais iawn.”

Roedd ymatebion eraill a roddwyd yn yr holiadur yn awgrymu y byddai sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i gleifion yn fuddiol, yn enwedig ar sut y cyfrifir costau triniaeth.

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw o bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac am iechyd y geg. Roedd arwyddion “dim ysmegu” yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd y rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth y GIG a thriniaeth breifat hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros / derbynfa.

Dyweddodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt.

Er bod y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wedi dweud wrthym fod cost unrhyw driniaeth yn glir iddynt cyn derbyn unrhyw driniaeth, dywedodd cyfran fawr o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan ac roedd yn cael ei harddangos o amgylch y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion fynd adref gyda nhw. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod yr wybodaeth oedd yn cael ei harddangos ar gael yn Saesneg yn unig a gwnaethom gynghori'r practis i ystyried darparu deunyddiau'n ddwyieithog a gwnaeth y practis gytuno i ystyried hyn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd oddeutu hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hyn eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol ar rai adegau'n unig. Cawsom wybod gan y

practis eu bod wedi recriwtio nifer o aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn y practis yn ddiweddar i gyfathrebu â chleifion yn yr iaith o'u dewis.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Gofal amserol

Roedd ymatebion gan y cleifion yn yr holiaduron yn awgrymu bod rhai cleifion wedi profi amseroedd aros hir i weld eu deintydd y tu hwnt i amser eu hapwyntiad. Rhoddodd y cleifion y sylwadau canlynol ar sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu:

“Cael ein gweld ar amser yr apwyntiad.”

“Bod yn brydlon!”

Dywedodd y practis wrthym ei fod yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. Disgrifiodd staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd fwy na hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau petai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y prif fynediad ac wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar neges y peiriant ateb.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod y rhan fwyaf o opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Mae'r practis wedi'i leoli ar ddau lawr. Mae'r llawr daear yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i lefel llawr daear y practis a gallent gael mynediad i'r dderbynfa, y man aros, y toiledau ac un ystafell driniaeth.

Gwranddo a dysgu o adborth

Dywedodd dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer triniaeth GIG a thriniaeth breifat. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer cwyno neu fynegi pryder yn cael eu dangos yn glir yn y dderbynfa a'r man aros. Roedd y manylion hefyd wedi'u cynnwys ar y daflen wybodaeth i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi unrhyw bryderon ffurfiol mewn llyfr cofnodi canolog er mwyn nodi unrhyw themâu. Cytunodd y practis i wneud hyn ar unwaith.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ddweud nad oeddent yn gwybod a oedd y practis deintyddol wedi gofyn am eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir, er enghraifft, drwy holiaduron cleifion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion; ac mae'r practis yn gwneud hynny drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis flwch sylwadau i gleifion gyflwyno holiaduron yn ddiennw. Cytunodd y practis i roi blwch sylwadau ar waith cyn gynted â phosib. Dywedodd y practis wrthym hefyd fod cleifion yn derbyn neges destun ar ôl pob apwyntiad gan alluogi iddynt roi adborth. Roedd y cleifion hefyd yn gallu rhoi adborth drwy wefan y practis a gwelsom fod dadansoddiad o'r adborth hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis hefyd i arddangos dadansoddiad o adborth gan gleifion yn y manau aros i ddangos i'r cleifion sy'n ymweld â'r practis bod eu hadborth wedi cael ei dderbyn; a bod y practis wedi gweithredu ar yr adborth i wella dysgu a'r gwasanaeth. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuwyd gennym fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion a staff. Roedd arwyddion at y cyfleuster ac roedd yn edrych yn lân iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau bychain yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir a'i fod yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus, yn llawn offer ac yn daclus. Dangosodd staff y broses ddadheintio inni a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant ar ddadheintio. Fodd bynnag, nid oedd dogfennaeth ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad i ddangos tystiolaeth bod y ddwy nyrs ddeintyddol wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan y staff dan hyfforddiant a rheolwr y practis bod yr hyfforddiant wedi'i gyflwyno a bod y ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth o'r hyfforddiant wedi'i chwblhau ac fe'i hanfonwyd at AGIC ar ôl ein hymweliad.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd yn unol ag argymhellion WHTM 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod cyn lleied o berygl o groes-heintio â phosibl i ddiogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod yr offer deintyddol yn cael ei storio'n unol â'u polisi dadheintio cyfredol ac roeddent yn cael eu cludo rhwng yr ystafelloedd triniaeth yn gywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau da ar waith i ddangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i ystyried trefnu'r cyffuriau brys mewn blychau/pecynnau sy'n ymwneud ag argyfyngau posib ynghyd â chardiau annog i'r staff eu defnyddio mewn sefyllfa argyfwng.

Gwelsom hefyd dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Cawsom wybod gan y practis bod un aelod o staff ar fin mynychu hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd a gwelsom dystiolaeth bod lle ar yr hyfforddiant wedi cael ei gadw ar gyfer yr wythnos ganlynol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gweddill y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf cymwys.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, cawsom wybod gan y practis bod un aelod o staff ar fin adnewyddu ei hyfforddiant ar y pwnc hwn. Cawsom ein sicrhau ar lafar y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i adnewyddu'r hyfforddiant.

Gwnaethom hefyd gadarnhau bod yr holl aelodau perthnasol o staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cawsom wybod a gwelsom dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei adnewyddu ar gyfer un aelod o staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod un aelod o staff yn adnewyddu ei hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer

radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn rheolaidd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld archwiliadau megis cofnodion cleifion, rheoli heintiau, pelydr-x; roedd hylendid dwylo wedi cael ei gwblhau a/neu ei drefnu gan y practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon dda i sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod, ar y cyfan, fod nodiadau am ofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision a sut y cafwyd caniatâd cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Roedd cyngor ar sgrinio am ganser a rhoi'r gorau i ysmegu hefyd wedi cael ei roi a'i gofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom weld rhai bylchau yn y sampl o gofnodion cleifion y gwelsom megis caniatâd ar lafar am driniaeth; nid oedd cynllunio ar gyfer triniaeth ac opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi'n llawn bob tro i rai cleifion. Gwnaethom drafod ein canfyddiadau'n uniongyrchol â'r practis a gwnaethom gynghori'r practis i

ymgymryd ag archwiliadau mwy rheolaidd fel rhan o'i broses adolygu cymheiriaid a chytunodd y practis i wneud hynny.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth bod y practis hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithlon ac yn gymwys yn ei rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus o ran codi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a gwelsom fod perthynas dda rhwng y tîm.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r staff yn

gyfrifol am ymgymryd â'u hyfforddiant eu hunain a chaiff hyn ei fonitro'n gyffredinol gan reolwr y practis. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau a chynlluniau datblygu staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintydd a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod ei dystysgrif cofrestru gydag AGIC wedi'i harddangos mewn lle amlwg, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a / neu roedd y fersiynau wedi'u rheoli gyda llofnodion staff, gan ddangos bod y rhain wedi cael eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enw a chymwysterau'r deintydd hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <<https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>>.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Llanrwst

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Llanrwst

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ddim yn berthnasol				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod un aelod o staff yn adnewyddu ei hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl	Cwblhawyd	LS	Cyn gynted â phosib
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ddim yn berthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Laura Sutton

Swydd: Rheolwr y practis

Dyddiad: 4 Ebrill2018